

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 7fed Gorffennaf 2021, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A.S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, T. Thomas a Mrs M. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

15. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a Miss H. J. Windus (Dirprwy Glerc y Dref).

16. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MEHEFIN 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1165	BT	250.56	Gwasanaethau ffôn a band eang
1162	HSBC	6.50	Taliadau banc 17 Mawrth – 16 Mai 2021
1167	Cyngor ar Bopeth	2,000.00	Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – Taliad 1 o 4 2021/22
1140	Cyngor Sir Ddinbych	736.00	AAC Swyddfeydd Ffordd Wellington – Taliad 3 o 10
1169	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffi Rheoli Mai 2021
1170	CThem	2,794.89	Didyniadau PAYE Mai 2021
1171	Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd)	4,294.23	Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mai 2021
1172	Cyflogau Staff	7,363.17	Cyflogau Staff Mehefin 2021
1168	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	2,750.00	Swyddog Apeliadau Taliad 1 i 3 o 12 2021/22
1183	BT	232.11	Rhentu llinell
	Cyfanswm taliadau	21,867.46	

Categori	Disgrifiad	Swm
Santander	Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod	23.57
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod	0.67
HSBC	Llog ar Gyfrif Money Maker	2.80
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod	0.67
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod	0.67
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod	0.67
	Cyfanswm Incwm	29.05

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

17. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Swm £
1188	B&M	Prynu papur A4	£30.32
1189	Sioned Graham-Cameron	Gwasanaeth Cyfieithu	£228.43
1190	Ymddiriedolaeth Warchod Stêm y Rhyl	Yswiriant ar gyfer Billy a Phlât Enw	£122.00
1191	ProPaint (UK) Ltd	Gwaith yn y Gerddi Coffa	£1,710.00
1192	Greengrass Services Ltd	Gwaith yn y Gerddi Coffa	£474.00
Cyfanswm			£2,564.75

Taliadau Argyfwng a Cherdyn: Gwnaed un taliad. Taleb rhif 1188 am £30.32, gan ddefnyddio'r cerdyn corfforaethol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.

18. PENODI CYNRYCHIOLYDD AR GORFF ALLANOL – TIM CYDLYNIANT CYMUNEDOL RHANBARTHOL GOGLEDD-DDWYRAIN CYMRU

Derbyn a phenderfynu ar wahoddiad (copi'n amgaeedig) i'r Cyngor Tref benodi cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd y sefydliad uchod.

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford gyda'r Cynghorydd Mrs J. Butterfield yn ddirprwy os bydd angen.

19. EITEM ER GWYBODAETH: CYNGOR SIR DDINBYCH – LANSIO CRONFA: GWELLA SEILWAITH I'W GWNEUD YN HAWS CYNNAL DIGWYDDIADAU

Cyflwynodd y Cadeirydd wybodaeth (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) gan Gyngor Sir Ddinbych yn ymwneud â lansio cronfa newydd i gynorthwyo gyda gwariant cyfalaf ar gyfer llwyfannu digwyddiadau.

Teimlai'r aelodau y gallai'r gronfa hon fod yn fuddiol ac fe **PENDERFYNWYD** cydnabod bodolaeth y gronfa a bod Clerc y Dref yn cysylltu gyda threfnydd digwyddiadau'r cyngor i weld os oedd cais addas y gellid ei wneud.

20. YMGYNGHORIAD: LLYWODRAETH CYMRU – YMGYNGHORIAD AR REOLIADAU CYMWYSTERAU CLERCOD YNG NGHYMRU

Cyflwynodd y Cadeirydd wybodaeth (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn ymwneud ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a gofynnodd am ymateb y cyngor.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Clerc y Dref ei fod eisoes wedi ei gefnogi i gael y cymhwyster perthnasol ac roedd cynnig tebyg wedi ei wneud i Ddirprwy Glerc y Dref.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, dywedodd Clerc y Dref na fyddai'n bosibl diswyddo Clerc sydd eisoes yn y swydd, ond byddai angen i gyngor gydymffurfio gyda'r gofyniad am y cynmhwyter wrth benodi olynydd.

PENDERFYNWYD *derbyn yr ymgynghoriad a'i gydnabod.*

21. EITEM GAN AELOD: DEFNYDDIO E-SGWTERI YN Y RHYL

Hysbysodd y Cyngorydd K. R. Jones y pwyllgor o bryderon sy'n cael eu mynegi yn y gymuned a chan Swyddog Cymorth Cymunedol lleol yr Heddlu mewn perthynas â nifer cynyddol o e-sgwteriaid yn cael eu defnyddio'n amhriodol a'r gwrthdrawiad posibl gyda cherddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd.

Esboniodd ymhellach bod ei bryderon yn ymwneud â chanlyniadau posibl gwrthdrawiad i'r sawl sy'n reidio e-sgwter a'r parti arall a hysbysodd y cyngor o ddigwyddiadau cenedlaethol yn ddiweddar, a oedd wedi arwain at farwolaeth reidiwr a hefyd mater rhoi hysbysiadau cosb sefydlog gan heddluoedd eraill i unigolion sy'n eu defnyddio'n amhriodol.

Nododd yr aelodau, er bod defnyddio cerbydau o'r fath, ac eithrio ar dir preifat neu mewn ardaloedd peilot, yn anghyfreithlon ar hyn o bryd, roedd y peiriannau ar gael i'w prynu yn hawdd ar y stryd fawr a bod hyn yn gallu rhoi'r argraff eu bod yn addas i'w defnyddio ar y briffordd gyhoeddus.

Nododd aelodau unigol achosion lleol lle roeddynt wedi gweld e-sgwteriaid yn cael eu defnyddio, yn enwedig o gwmpas canol y dref.

Teimlai'r aelodau, o ystyried y niwed posibl yn deillio o ddefnyddio cerbydau o'r fath, ei bod yn bwysig bod darpar ddefnyddwyr a phobl ifanc yn benodol yn cael cyngor addas ar eu defnyddio.

PENDERFYNWYD *bod Clerc y Dref yn cysylltu ag ysgolion uwchradd lleol a Choleg y Rhyl i ofyn bod Swyddog Cyswllt yr Heddlu yn rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr ar ddefnyddio cerbydau o'r fath yn briodol.*

PENDERFYNWYD YMHELLACH *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater brys*

[Ymunodd y Cyngorydd A. S. Johnson â'r cyfarfod ar y pwynt hwn]

22. EITEM GAN AELOD: CAMDRINIAETH LAFAR MERCHED IFANC

Hysbysodd y Cynghorydd A. S. Johnson y pwyllgor o ddigwyddiad a welodd yn ddiweddar gyda pherson ifanc yn destun camdriniaeth llafar (chwibaniad) o gerbyd yn pasio a mynegodd y farn bod ymddygiad o'r fath yn annerbyniol yn yr oes fodern a gofynnodd i'r cyngor dynnu sylw'r cyhoedd at y mater.

Cytunodd yr aelodau y dylid adrodd am ymddygiad o'r fath i'r heddlu lle bo modd ac y dylid rhoi sylw i hyn yng nghylchgrawn nesaf y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

23. EITEM GAN AELOD: ETHOLIADAU SENEDD 2021

Mynegodd y Cynghorydd K. R. Jones ei bryderon ynglŷn â materion roedd wedi eu profi/eu gweld yn etholiadau diweddar y Senedd, sef

- Ar ddiwrnod yr etholiad, roedd gwybodaeth ar orsafoedd pleidleisio ar gyfer wardiau Plastirion a Thynewydd yn anghywir ar wefan y Cyngor Sir (ac yn parhau i fod)
- Diffyg gwybodaeth yn y gorsafoedd pleidleisio arferol i ailgyfeirio pleidleiswyr i'r gorsafoedd cywir er mwyn iddynt allu pleidleisio.
- Bod yr orsaf bleidleisio a adleolwyd yn y Taste Academy yn cyffinio peiriannau trwm ac offer wrth fynd i ardal y traeth ac yn cynrychioli perygl i bleidleiswyr yn mynd i'r orsaf, a'i farn y dylid bod wedi ystyried hyn fel rhan o asesiad risg a ymgwymerwyd o ran addasrwydd yr adeilad fel gorsaf bleidleisio.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones am gefnogaeth i anfon llythyr at y Swyddog Etholiadol hyn nodi'r pryderon.

Dyweddodd Clerc y Dref bod adleoliad Gorsaf Bleidleisio Tynewydd wedi cael cyhoeddusrwydd drwy ymgynghoriad blaenorol gan y Cyngor Sir ac roedd adleoliad gorsaf Plastirion wedi digwydd oherwydd nad oedd gorsaf wreiddiol Maes Emlyn ar gael bellach.

PENDERFYNWYD anfon llythyr at y Swyddog Etholiadol yn amlinellu'r pryderon uchod.

24. EITEM GAN AELOD: DIFFIBRILIWR CYMUNEDOL

Dyweddodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield iddi dderbyn cais gan fudiad lleol yn gofyn am gefnogaeth y cyngor ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â gosod diffibriliwr cymunedol. Er ei bod o blaid y cais mewn egwyddor, gofynnodd am gael cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor CSG er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i'r cyngor yn cefnogi mentrau o'r fath yn y dyfodol.

Dyweddodd aelod bod y cyngor yn flaenorol wedi gwrthod cais tebyg gan fudiad arall a dylai'r cyngor ymddangos yn gyson. Fodd bynnag, esboniwyd bod y cais hwnnw wedi ei gyflwyno gan gwmni cenedlaethol er mwyn eu cwsmeriaid ac nid gan fudiad cymunedol.

Adroddodd aelod bod y Clwb Rotari lleol wedi darparu dau ddiffibriliwr yn Denmore Stores a meddygfa'r West End a thalu'r costau.

Dywedodd aelod bod map arlein o leoliad diffibrilwyr presennol ar gael ar wefan y GIG.

PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor CSG i'w ystyried ymhellach.

25. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:

Dyddiad: